Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Lilian Hopkin, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 8 Ebrill 2024 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | A J Jeffery | H Lawson |
| A J O'Connor | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mark Gosney | Arweinydd Tîm Comisiynu |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kieran O'Carroll | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| A Anthony | Aelod y Cabinet dros Les |
| H Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): DD/B

---

## 34 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 35 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2024 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 36 Grant Galluogi Cymunedau.

Darparodd Mark Gosney, Arweinydd y Tîm Comisiynu ac Anthony Richards, Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, adroddiad 'er gwybodaeth' i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi am y Grant Galluogi Cymunedau.

Nodwyd bod gwall teipograffyddol ym mharagraff 7.1 a ddylai ddweud "Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol heblaw y rheini a nodir yn yr adroddiad hwn."

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau amrywiol, ac atebodd y swyddogion yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'u timau am eu holl waith caled i sicrhau bod y grwpiau amrywiol yn gallu cael mynediad at yr arian mewn pryd ar gyfer cyfnod y Nadolig.

## 37 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi 2023-2024.

Darparodd Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, a Dave Howes, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad a oedd yn crynhoi canlyniad ac allbynnau rhaglen waith y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi yn 2023/24.

Byddai'r adroddiad yn cael ei uno â'r adroddiadau blynyddol ar gyfer y 4 Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau eraill a'i gyflwyno i'r Cyngor maes o law.

## 38 Cynllun Gwaith.

Darparwyd y cynllun gwaith ar gyfer 2023/2024 er "gwybodaeth”.

Nodwyd bod un eitem heb ei thrafod. Byddai hyn yn cael ei hystyried ar ôl i'r rhaglenni trawsnewid perthnasol gael eu diweddaru ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Swyddogion a Chynghorwyr am eu cyfraniad at y rhaglen waith amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.33 pm

**Cadeirydd**